Gwrandawiadau/Achosion Disgyblu Dwyieithog

Canllawiau

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg (Diwygiedig 2011) yn datgan:

Mae gan unrhyw aelod o'r cyhoedd, staff neu fyfyriwr sy'n rhan o wrandawiad disgyblu, boed hynny fel y sawl a gyhuddir, neu fel tyst, yr hawl i ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl ei ddewis ym mhob cam o'r gwrandawiad. (Cymal 4.3 (8)

Cyswllt Cyntaf

- Wrth ddechrau gohebiaeth gyda'r unigolyn dan sylw dylid gwirio a yw ei ddewis iaith yn hysbys a defnyddio'r iaith honno (dylai dewis iaith myfyriwr fod ar ei gofnod AStRA, ac mae gan Adnoddau Dynol y data ar ddewis iaith staff).
- Os nad yw'r dewis iaith yn hysbys dylid anfon neges ddwyieithog.
- Unwaith bydd yr unigolyn wedi ateb dylid defnyddio iaith ei ymateb o hynny ymlaen oni bai ei fod yn gofyn fel arall.

Gwrandawiadau/Cyfarfodydd Disgyblu

- Pan drefnir gwrandawiad neu gyfarfod disgyblu dylai'r unigolyn o dan sylw gael ei atgoffa o'i hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn cyfarfod wyneb yn wyneb.
- Dylid atgoffa unrhyw dystion hefyd.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd iaith ddymunol yr unigolyn ar gyfer gohebiaeth a chyfarfodydd yn cyfateb bob tro. Mae gan fyfyrwyr a staff yr hawl i ddefnyddio Saesneg yn eu gohebiaeth ond Cymraeg mewn sefyllfa wyneb yn wyneb os ydynt yn dymuno hynny, ac i'r gwrthwyneb hefyd.
- Dylai unrhyw unigolyn sydd am ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod neu wrandawiad disgyblu roi gwybod am hyn o flaen llaw i gynullydd/gadeirydd y cyfarfod, a dylai'r neges a anfonir i drefnu'r cyfarfod ei atgoffa o'r angen hwn.
- Pan y mae'n hysbys bod unigolyn am ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod neu wrandawiad disgyblu dylai'r cynullydd/cadeirydd ystyried a fydd angen gwasanaeth cyfieithu. Yn ddelfrydol dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn bresennol er mwyn cynnal y gwrandawiad/cyfarfod yn Gymraeg.
- Pan na fydd hyn yn bosibl dylid trefnu cyfieithu ar y pryd. Dylid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est2045 cyfieithu@aber.ac.uk. Gwell gwneud hyn wythnos o flaen llaw, pan yn bosibl.

- Os bydd sefyllfa yn codi lle gall y cyfarfod/gwrandawiad ddigwydd yn gyfan gwbl yn Gymraeg gan fod yr holl staff sy'n rhan o'r gwrandawiad yn medru'r Gymraeg, ond bod yr unigolyn wedi dewis person di-Gymraeg i'w gynrychioli (e.e. cynrychiolydd undeb) - cysyllter â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg am gyngor.

Nodiadau

- Mewn achosion lle bydd rhywun yn cymryd nodiadau ar ran y Brifysgol dylid gwneud pob ymdrech i ganfod rhywun sy'n deall Cymraeg i wneud hyn. Os na fydd hyn yn bosibl bydd angen cyfieithu'r nodiadau Saesneg cyn eu hanfon at yr unigolyn i'w cadarnhau.

- Dylai'r ddau set o nodiadau, y rhai Cymraeg a'r Saesneg, gael eu hanfon yr un pryd at yr unigolyn dan sylw yn dilyn cyfarfod/gwrandawiad dwyieithog.

- Os cymerwyd y nodiadau yn Gymraeg a bod y cyfarfod wedi bod yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg ni fydd angen fersiwn Saesneg o'r nodiadau ar yr unigolyn os ydynt yn cael eu cyfieithu.

Geirfa a Brawddegau Allweddol

I would like to remind you that you may speak in Welsh or English at this meeting/hearing.	Hoffwn eich atgoffa fod gennych yr hawl i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y cyfarfod/gwrandawiad hwn.
If you wish to use Welsh in the meeting/hearing will you please give us advance warning.	Os ydych am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod/gwrandawiad a wnewch chi roi gwybod inni o flaen llaw os gwelwch yn dda.
Could you please give us at least a week's notice so that we can arrange simultaenous translation for you.	A fedrwch chi roi gwybod o leiaf wythnos o flaen llaw os gwelwch yn dda fel y gallwn drefnu cyfieithu ar y pryd ar eich cyfer.
If you do not give us advance warning of your intention to use Welsh in this meeting the University can not guarantee that you may do so.	Os na fyddwch yn rhoi gwybod inni o flaen llaw eich bod am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwn ni all y Brifysgol warantu y bydd modd i chi wneud hynny.
Disciplinary hearing	Gwrandawiad disgyblu
Disciplinary meeting	Cyfarfod disgyblu
Witness	Tyst
Simultaenous translation	Cyfieithu ar y pryd